# Coed Nadolig

10 Ionawr 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan gais rhyddid gwybodaeth, hoffwn ofyn pa ddarpariaeth / cost a wnaed gennych chi ar gyfer coeden Nadolig mewn unrhyw adeiladau ar draws eich ystâd yn 2015 a 2016? Yn ychwanegol at hynny, beth oedd y gost i addurno unrhyw goed ar gyfer yr un cyfnod ?*

Mae'r ffigurau yn y tabl isod yn gysylltiedig â chost coed ac addurniadau Nadolig ar draws ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2015 a 2016. Mae hyn yn cynnwys Tŷ Hywel, y Senedd a'r ganolfan ymwelwyr ym Mae Colwyn.

| **Eitem** | **2015** | **2016** |
|---|---:|---:|
| Coed Nadolig | £929.97 | £1,267.98 |
| Cherry Picker (costau llogi) | £646.79 | £554.40 |
| Goleuadau LED | £0.00 | £149.68 |
| **Cyfanswm** | **£1,576.76** | **£1,972.06** |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF